Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 34 Tanysgrifiad blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 MAWRTH 88

## TALU'N FFORDD

YN YSTOD y llynedd fe gollodd nifer o'n hen ddarllenwyr y frwydr a elwir bywyd – ond diolch i chi a lynodd ac a ddaeth i gau'r bwlch fe gododd y cylchrediad i 1,233. Lle i diolch hefyd i Gyngor y Celfyddydau am gefnogaeth gyson ac anrhydeddus ac am ychwanegu at eu nawdd flynyddol. O ganlyniad, er i'r llynedd droi'n golledus mae'r sylfaen ariannol bellach yn gadarn am flynyddoedd fe hyderwn. Daeth help ychwanegol trwy eich rhoddion chi – diolch amdanynt. Ond wedi glynu – talu. Os oes ansicrwydd faint sydd arnoch inni anfonwch y teirpunt am eleni yn awr i ni gael arian ar law i dalu'r biliau, ac fe gewch wybod a oes dyled bellach. Ac i gael eich Casglwr yn gynt trwy'r post, ychwanegwch eich côd post at y cyfeiriad.

Diolch arbennig i'r cyfranwyr ac ym mlwyddyn fawr camp cyfieithu ac ail-gyhoeddi'r Beibl nid gweddus yw i'r un ohonom ni laesu dwylo yn y Gymru gyfoes.

## BALM Y TRI IFANS

Bitters Llanelli
GWILYM EVANS
Oel y Blaenau
MORRIS EVANS
Olew Pwllheli
RICHARD EVANS

GWEL. TUD 10, 11




COW ABOUT TO BE SHOT
TIMELY ARRIVAL OF
EVANS' CATTLE OILS
Buwch wedi ei chondemnio i'w saethu.

THE SAME COW
AFTER TAKING
EVANS' CATTLE OILS.
Wedi ei gwella gyda gwerth 10/- o Olew Evans

## Olew Gewynau

(MUSCLE OIL)
Iachaol ac Esmwythaol
Healing and Soothing

Directions:
I'w rwbio yn dda ar y lle dolurus
(Rub well on painful parts)
SHAKE THE BOTTLE WELL

RICHARD EVANS
BONESETTER
PWLLHELI

## QUININE BITTERS GWILYM EVANS,

MEDDYGINIAETH LYSIEUOL BERFFEITHIAF YR OES.

### BITTERS Gwilym Evans.

QUININE BITTERS Gwilym Evans O Lanelli, dyna'r fan; Ond gochelwch rhag y twyllwyr sydd i'w cael mewn tref a llan. Byth ni werthir un botelaid o'r dda feddyginiaeth hon. Heb fod enw y gwneuthurwr ar y gostrel ger eich bron. Hawdd ei chael drwy y llythyrdy, os yn byw yn nghanol gwlad, hefyd yn mhob siop Fferyllydd, gellir cael y moddion rhad. Taer ddymunwn sylw'r cyhoedd, gan fod llawer heddyw i'w cael, geisiant efelychu'r BITTERS, rhoddant rhyw gyffyriau gwael. Y mae llawer wedi eu twyllo, o ddiniwed bobl y wlad, gan y cyfryw dan y dybiaeth fod eu heiddo yn fwy rhad. Ar ol yfed aml gostrelaid, yn y gobaith cryf yn siwr, o gael llwyr ryddhad o'u gwendid, nid oedd iddynt well na dw'r. QUININE BITTERS Gwilym Evans, o Llanelli, ro'es iachad iddynt wedi i bob peth fethu,—felly dyma'r physig rhad. Dyma'r feddyginiaeth oreu, sy'n lliniaru pob rhyw loes; tystiolaetha pawb am dani, y gwna estyn hyd yr oes. Y meddygon geir yn unfryd yn ei chanmol yn mhob man, fel y moddion effeithiolaf i gryfhau a nerthu'r gwan. Pawb sy'n dioddef rhyw anhwyldeb, na wnaed oedi'n nychlyd wael, pryned gostrel QUININE BITTERS, yn hon iechyd sydd i'w gael.

AP MORUS.

Tra dwr yn troelli, boed Bitters Llanelli
Yn brif feddyginiaeth i gleifion 'rholl wlad.

### BITTERS GWILYM EVANS.

Y mae yn gwella

| | |
|---|---|
| Gwaed Anmhur | Diffyg Treuliad |
| Anhwylderau'r Cylla | Llosg Cylla |
| Gwendid Gieuol | Pruddglwyf |
| Iselder Ysbryd | Clefyd yr Ysgyfaint |
| Gwendid Cyffredinol | Poeri Gwaed |
| Doluriau yr Afu | Aiffyg Anadl |
| &c., &c. | &c., &c. |

Bitters Gwilym Evans.
Bitters Gwilym Evans.

Gwelir felly fod y Quinine Bitters hyn yn feddyginiaeth anmhrisiadwy, a barnu oddiwrth brofiad doctoriaid, teithwyr, fferyllwyr, gweinidogion, a chanoedd lawer o gleifion, wedi gwella. Y mae yn feddyginiaeth anffaeledig. Pa'm y dioddefwch mwyach oddiwrth y doluriau uchod, pan y mae meddyginiaeth naturiol, syml, ac effeithiol i'w chael?

Bitters Gwilym Evans.
Bitters Gwilym Evans.

### Oel gwyrthiol Morris Evans

Cwm Uchaf, Llanberis, Hyd 11eg, 1901.

[illegible]

HENRY GRIFFITHS.

### Tystiolaethau Pwysig.

14, Montague St., Edinburgh,
Rhagfyr 1af.

Foneddigion,—Byddwch cystal ag anfon i mi yn ddioed botelaid 4s. 6c. o BITTERS GWILYM EVANS. Cymerais bedair potelaid y gauaf diweddaf, a gwnaeth les mawr i mi.—Yr eiddoch,

S. JAMES.

### YR ANWYDWST A'I FEDDYGINIAETH.

29, Erasmus Street, Penmaenmawr,
Ionawr 20fed, 1900.

Foneddigion,—Teimlaf mai dyledswydd arnaf er mwyn ein dau, cyfeillion, a'm cydweithwyr sydd yn dioddef dan yr aflechyd dirdynol hwn, yw dwyn tystiolaeth gyhoeddus i effeithiau iachusol Bitters Gwilym Evans, fel moddion effeithiol i symud yr Anwydwst.

Dwy flynedd yn ol, cefais ymosodiad trwm o'r dolur poenus hwn. Er defnyddio moddion cyffredin a chyffyriau meddygol, nid oedd dim yn tycio i'm gwella, ond yr oeddwn yn mynod o ddrwg i waeth. Penderfynais wneyd prawf ar Quinine Bitters Gwilym Evans. Wedi defnyddio oddeutu haner costrelaid 2s. 9c., canfyddais fod yr iasau rhewaidd yn cilio, y gofid yn yr aelodau yn darfod, a'r archwaeth at fwyd yn cryfhau; ac erbyn gorphen y botelaid, yr oedd yr holl boenau a'r anhwyldeb wedi ymadael yn llwyr.

Ar y 4ydd o'r mis hwn, gwnaeth yr hen elyn ymosodiad penderfynol arnaf drachefn. Methais a'i yru ymaith, er pob ymdrech, nes anfon drachefn am Quinine Bitters, ac un botelaid, fel y tro o'r blaen, a yrodd y gelyn a'i boenau ar ffo, ac a'm llwyr adferodd.—Yr eiddoch, &c.,

JOHN P. JONES (Ap Gelert).